Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Flying Start Bryn Celyn/ Dechrau'n Deg Pen Y Groes**

**Ysgol Gynradd Bryn Celyn**
**Bryn Celyn**
**Caerdydd**
**CF23 7EH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Flying Start Bryn Celyn/Dechrau'n Deg Pen Y Groes

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Darling Buds FS Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau llwyddiannus yn rheolaidd yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau gwerth chweil a gwerthfawr ynglŷn â'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt ac yn gallu dilyn eu syniadau a'u diddordebau pan fo hynny'n briodol. Mae gan y plant gydberthnasau cryf â'r staff ac maent yn rhyngweithio'n hyderus â nhw. Maent yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran eu dysgu, eu datblygiad, a'u sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn llawn cymhelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda, gan gynnig amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae'r arweinwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Maent yn rhoi llawer o anogaeth a chymorth i'r staff. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y polisïau a'r cofnodion gofynnol ar waith. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae ac â beth. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis cymryd rhan mewn gweithgaredd playdough yn creu siapiau anifeiliaid. Mae'r plant yn mynd at y staff ac yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi pob ymdrech i gyfathrebu. Er enghraifft, gwelsom y staff yn ymateb i blentyn a oedd yn dangos diddordeb mewn blociau adeiladu, gan roi gweddill y blociau i'r plentyn allu chwarae â nhw.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes. Er enghraifft, mae'r plant sy'n cynhyrfu neu'n ei chael hi'n anodd setlo pan fyddant yn cyrraedd yn mynd at y staff i gael cysur, maent yn gyfarwydd â'r staff ac mae hynny'n eu helpu i setlo'n gyflym. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol, sy'n eu helpu i deimlo wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn gwybod y dylent olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac maent yn mwynhau gweithgareddau amser cylch dyddiol fel canu hwiangerddi a chyfrif.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Er enghraifft, roedd un plentyn yn awyddus i rannu tegan llew gyda phlentyn arall yn ystod chwarae byd bach. Gyda chymorth, mae'r plant yn dysgu sut i barchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol ac yn cael rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae'r plant yn dangos hunangymhelliant i ddechrau eu chwarae eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn trochi eu hunain mewn cyfleoedd chwarae cyfoethog wrth chwarae rôl gan wneud defnydd o amrywiaeth o adnoddau bywyd go iawn fel cyfarpar coginio. Er enghraifft, mae'r plant yn esgus paratoi, coginio a gweini bwyd i aelod o'r staff.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau estynedig o amser sy'n eu galluogi i atgyfnerthu sgiliau a gwneud penderfyniadau. Gyda chymorth, mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain, fel arllwys eu diodydd eu hunain a helpu i weini bwyd yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhai hynny sy'n gallu, yn defnyddio'r cyfleusterau fel y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol.

## **Gofal** a Datblygiad **Da**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Maent yn cadw cofrestrau presenoldeb ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y plant, ac ar gyfer unrhyw un sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau a'r prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn briodol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau yn effeithiol drwy olchi eu dwylo ar ôl newid cewynnau a chyn paratoi bwyd. Maent yn cynnal amgylchedd sy'n hylan, gan olchi'r byrddau, glanhau cwpanau/poteli a brwsio lloriau yn rheolaidd. Mae'r byrbrydau sy'n cael eu darparu yn faethlon ac mae'r staff yn cynnig llaeth neu ddŵr yn rheolaidd drwy gydol y sesiwn.

Mae'r staff yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad amhriodol yn gyflym ac yn bwyllog i'w atal rhag gwaethygu. Er enghraifft, pan ddechreuodd un plentyn gymryd tegan oddi wrth blentyn arall, aeth aelod o'r staff ati i ymyrryd yn gyflym drwy dynnu ei sylw drwy gynnal gweithgareddau adeiladu â blociau. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn siarad yn barchus â'i gilydd ac yn fodelau rôl da i'r plant. Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt.

Mae'r staff yn hybu chwarae a dysgu'r plant drwy ddilyn eu diddordebau a'u dewisiadau. Maent yn asesu galluoedd y plant ac yn ymwybodol o'u camau datblygu nesaf. Caiff y broses o gynllunio gweithgareddau ei selio ar syniadau gan y plant, anghenion datblygiadol a dewisiadau. Mae'r staff yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu. Maent yn cydnabod pan fydd gan y plant anghenion ychwanegol o bosibl. Mae'r staff yn cymryd camau pwrpasol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth ac arbenigedd sydd ar gael iddynt gan asiantaethau allanol. Mae'r staff yn cynyddu'r cyfle i'r plant gaffael y Gymraeg yn effeithiol ym mhob rhan o'r lleoliad. Er enghraifft, gwelsom y plant yn ymuno a chanu hwiangerddi Cymraeg a chaneuon chyfri yn ystod amser cylch.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw beryglon eu nodi yn gyflym. Mae'r lleoliad yn lân, yn daclus ar y cyfan, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r holl feysydd ac mae arferion glanhau effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n dda o ran atal a rheoli heintiau. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae system gadarn ar waith i gofnodi unrhyw ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal fel bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae wedi'i addurno'n dda gyda lliwiau tawel, niwtral, sy'n rhoi ymdeimlad hamddenol a chartrefol i'r lleoliad. Mae'r ystafelloedd chwarae yn fawr ac yn olau, gan gynnig gofod mawr a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth chwarae. Mae'r staff yn sicrhau bod yr ystafelloedd yn drefnus ac wedi'i gosod mewn ffordd ddiddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd a datblygiad y plant, a'u hannog i archwilio. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a llyfrau pwrpasol y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd, gan annog eu hannibyniaeth. Mae gan bob ystafell chwarae ardal awyr agored ei hun ac yn cynnwys amrywiaeth dda o gyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r adnoddau sydd ar gael i'r plant yn yr ardal awyr agored a rennir yn annog datblygiad o'u sgiliau corfforol. Mae gan y plant gyfleoedd i ddringo, gyrru teganau ag olwynion a rhedeg o amgylch yr ardal fawr.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol o ran camau datblygiad y plant er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael iddynt. Er enghraifft, drwy chwarae â blociau, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau crefft, a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r staff yn sicrhau bod yr holl adnoddau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mewn cyflwr da. Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft byrddau, cadeiriau, toiledau a sinciau maint plant, sy'n addas ar gyfer oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn bwrw ati i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Mae'r arweinwyr wedi gweithio mewn ffordd gadarnhaol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r arweinwyr yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol. Maent yn ceisio adborth gan rieni, y plant, y staff ac asiantaethau allanol yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n nodi arferion effeithiol a meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y rhieni sy'n dangos lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau fod ffeiliau'r staff yn drefnus iawn, ac yn dangos tystiolaeth o'r holl wiriadau perthnasol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae ganddynt system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau un i un gyda staff sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, ni chânt eu cynnal yn rheolaidd. Mae tîm o staff sefydledig yn y lleoliad. Maent yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod yr arweinwyr yn eu cefnogi. Mae'r staff yn cyfarfod yn gyson i drafod unrhyw faterion a allai godi. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r staff yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staff er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.  Mae cofnodion y plant yn cynnwys y wybodaeth ofynnol rheoliadau gan gynnwys caniatâd rhieni ar gyfer triniaeth feddygol frys. Fodd bynnag, nid yw caniatâd rhieni ar gyfer gweithgareddau eraill yn cael ei gofnodi'n gyson.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Er enghraifft, tîm cynghori Dechrau'n Deg, chynghorwyr yr awdurdod lleol ac asiantaethau cymorth  megis lleferydd ac iaith ac ymwelwyr iechyd. Mae'r lleoliad wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir i'w teuluoedd. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi cymorth ac adborth y staff ar ddatblygiad eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod caniatâd rhieni yn cael ei roi a'i gofnodi'n rheolaidd |
| Ystyried cofnodi cyfarfodydd staff yn ffurfiol i alluogi arferion gorau i gael eu rhannu ac i adnabod anghenion hyfforddiant yn rheolaidd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/11/2024